

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

ADRODDIAD BLYNYDDOL

YR IAITH GYMRAEG

2024-2025

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL YR IAITH GYMRAEG 2024 - 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

MYNEGAI

1. Cyflwyniad

2. Trosolwg o 2024-25

3. Gweithredu'r Safonau

1. Cyflwyniad

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Y Comisiwn sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r adroddiad hwn; yr Ysgrifennydd, Mrs Shereen Williams MBE OStJ DL, a ddrafftiodd yr adroddiad. Paratowyd yr adroddiad yn unol ag arweiniad Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer adroddiadau blynyddol.

Mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn cael ei rhannu trwy gytundeb â'n chwaer sefydliad, sef Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC). Oherwydd y trefniant gweithio ar y cyd hwn, mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi mabwysiadu Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i CDFfC, a lluniwyd yr adroddiad hwn ar y sail honno.

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol cynghorol ac fe'i noddir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG). Mae'r Comisiwn yn cynnal ei gyfarfodydd yn ei swyddfeydd yng Nghaerdydd, ac mae'n cael cymorth Ysgrifenyddiaeth (sydd hefyd yn cynorthwyo CDFfC). Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi'i gyfansoddi o dan atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 gyda'r aelodaeth ganlynol:

Cadeirydd	Llefarydd Tŷ'r Cyffredin
Dirprwy Gadeirydd	Barnwr yr Uchel Lys wedi'i benodi gan yr Arglwydd Ganghellor
Dau Gomisiynydd	Wedi'u penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol
Asesydd	Cofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr
Asesydd	Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans
Ysgrifennydd	Swyddog wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol i arwain yr Ysgrifenyddiaeth

Swyddogaeth y Comisiwn Ffiniau i Gymru yw adolygu cynrychiolaeth pobl Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin yn barhaus. Yn benodol, mae Deddf 1986 (fel y'i diwygiwyd) yn pennu gofyniad ar y Comisiwn i gynnal arolwg cyffredinol o'r holl etholaethau Seneddol bob pum mlynedd.

Wrth gynnal arolwg, mae'n ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru gyhoeddi argymhellion, gwahodd cynrychiolaethau ynglŷn â'r cynigion, a rhoi ystyriaeth i unrhyw gynrychiolaethau. Mae'n rhaid i'r Comisiwn gynnal o leiaf ddau, a dim mwy na phump o Wrandawiadau Cyhoeddus yng Nghymru.

Ar ddiwedd arolwg, mae'n rhaid i'r Comisiwn gyflwyno ei argymhellion terfynol i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin. Ar ôl i'r Llefarydd dderbyn adroddiad terfynol y Comisiwn, mae'n ofynnol iddo/iddi ei roi gerbron y Senedd. Pan fydd adroddiadau gan y 4 Comisiwn Ffiniau yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu cyflwyno gerbron y Senedd, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno drafft o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor i'w Fawrhydi yn Ei Gyngor i weithredu'r argymhellion yn yr adroddiadau. Ar ôl i'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei wneud, bydd yr etholaethau newydd yn dod i rym yn yr etholiad cyffredinol nesaf.

2. Trosolwg o 2024 - 25

Y pwyslais ar gyfer 2024 – 25 oedd sicrhau bod y Comisiwn yn parhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng ngweithlu'r Comisiwn wedi aros yr un fath, sef pedwar aelod o staff, sy'n galluogi'r Comisiwn i barhau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg effeithiol i'w randdeiliaid. Mae'r Comisiwn hefyd wedi darparu cymorth i aelodau staff a ymgymerodd â chyrsiau Cymraeg trwy roi amser i ffwrdd i fynychu dosbarthiadau yn ogystal ag ariannu cost y cyrsiau.

Mae'r Comisiwn wedi parhau â'i drefniadau gweithio hybrid ac mae aelodau staff yn gallu gweithio gartref ac yn safle swyddfa'r Comisiwn. Nid yw'r trefniadau hyn wedi effeithio ar allu'r Comisiwn i barhau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg i'w randdeiliaid.

Ni wnaed unrhyw gwynion ynglŷn â'r modd yr oedd y Comisiwn yn gweithredu'r safonau yn ystod 2024 – 25.

3. Gweithredu'r Safonau

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

O ran gohebiaeth, cynhyrchwyd pob un o'r llythyrau a'r negeseuon e-bost gweithdrefnol a anfonwyd fel rhan o'r broses arolygon yn Gymraeg a Saesneg, ac fe'u hanfonwyd ar yr un pryd. Ar gyfer gohebiaeth arall, rhoddwyd system dewis iaith ar waith. Lle nad yw'r dewis iaith yn hysbys, caiff gohebiaeth ei chynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Comisiwn yn parhau i gynnal cronfa ddata sy'n cofnodi dewis iaith unigolion rydym yn gohebu â nhw. (Safonau rhif 1 i 7).

Mae gweithdrefnau ar waith ynglŷn ag ateb y prif rif ffôn, ac mae ffôn ateb Cymraeg ar waith (Safonau rhif 8 i 22).

Ni chynhaliodd y Comisiwn unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn (Safonau rhif 24 i 30).

Ni chynhaliodd y Comisiwn unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn (Safonau rhif 31 i 34).

Cyhoeddwyd yr holl ddogfennau a luniwyd i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg, a hynny ar yr un pryd (Safonau rhif 36, 44 a 45).

Darparwyd yr holl ffurflenni a oedd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg (Safonau rhif 46 i 47).

Mae'r holl dudalennau ar wefan y Comisiwn yn gwbl weithredol ac ar gael yn Gymraeg a Saesneg (Safonau rhif 48, 51 a 52).

Caiff y cyfryngau cymdeithasol eu defnyddio yn Gymraeg a Saesneg (Safonau rhif 54 a 55).

Lluniwyd pob arwydd a hysbysiad yn Gymraeg a Saesneg gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (Safonau rhif 57 i 59, 65 a 66).

Mae nifer y staff yn y Comisiwn sy'n siarad Cymraeg wedi galluogi'r Comisiwn i ddarparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg, yn ôl y gofyn (Safon rhif 61).

Ni chynhaliwyd unrhyw ymarferion tendro yn ystod y flwyddyn (Safonau rhif 72, 73, 75 a 76).

Ni chyflwynwyd unrhyw wasanaeth Cymraeg newydd ac nid oedd unrhyw newid i'r hunaniaeth gorfforaethol yn ystod y flwyddyn (Safonau rhif 77 i 79).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y cydymffurfir â nhw, mae'r rhain i'w gweld yn nogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg CDFfC, sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan CDFfC ac sydd ar gael yn y swyddfa (Safonau rhif 149 a 153).

Mae Polisi Cwynion am y Gymraeg CDFfC ar gael ar y wefan ac yn y swyddfa (Safonau rhif 150 i 151).

Mae'r ddogfen hon yn ffurfio adroddiad blynyddol y Comisiwn mewn perthynas â'r safonau cyflenwi gwasanaethau (Safon rhif 152).

Ni ofynnodd Comisiynydd y Gymraeg am unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yn ystod y flwyddyn (Safon rhif 154).

Safonau Llunio Polisi

Ni luniwyd unrhyw bolisïau newydd ac ni ddiwygiwyd unrhyw bolisïau presennol yn ystod y flwyddyn a oedd yn golygu bod angen cynnal Asesiad o Effaith Polisi ar yr Iaith Gymraeg (Safonau rhif 84 i 89).

Ni chafodd unrhyw ymchwil newydd ei chynnal na'i chomisiynu yn ystod y flwyddyn (Safonau rhif 91 i 93).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau llunio polisi sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y cydymffurfir â nhw, mae'r rhain i'w gweld yn y ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg, sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan CDFfC ac sydd ar gael yn y swyddfa (Safonau rhif 155 a 157).

Mae Polisi Cwynion am y Gymraeg CDFfC ar gael ar y wefan ac yn y swyddfa (Safon rhif 156).

Mae'r ddogfen hon yn ffurfio adroddiad blynyddol y Comisiwn mewn perthynas â'r safonau llunio polisi (Safon rhif 158).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau llunio polisi sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y cydymffurfir â nhw, mae'r rhain i'w gweld yn nogfen Polisi a Gweithdrefnau

Safonau'r Gymraeg CDFfC, sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan CDFfC ac sydd ar gael yn y swyddfa (Safon rhif 159).

Ni chafwyd unrhyw gais am wybodaeth yn ymwneud â'r safonau llunio polisi yn ystod y flwyddyn (Safon rhif160).

Safonau Gweithredu

Mae Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith ar waith a rhoddwyd copi ohono i bob aelod o'r staff (Safon rhif 94).

Caiff dewis iaith yr holl staff newydd a phresennol ei gasglu a gweithredir yn unol â hynny (Safonau 95 i 100).

Rhoddwyd gweithdrefn ar waith i sicrhau y caiff unrhyw bolisïau staffio newydd neu ddiwygiedig eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg (Safonau 101 i 107).

Mae gweithdrefnau ar waith ar gyfer cwynion gan aelodau staff ac ymateb iddynt, ac maen nhw wedi'u cynnwys yn y Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith (Safonau 108, 108A, 110 a 111).

Mae gweithdrefnau ar waith yn ymwneud â materion disgyblu ac maen nhw wedi'u cynnwys yn y Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith (Safonau 112, 112A, 114 a 115).

Mae'r Comisiwn wedi diweddaru'r ardaloedd mynediad a rennir ar ei fewnrwyd y mae ganddo reolaeth weinyddol drostynt i sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei lanlwytho ar gael yn Gymraeg. (Safonau 118, 120 i 123).

Cynhaliwyd asesiad o sgiliau Cymraeg yr holl staff, a chaiff ei gynnal a'i ddiweddaru ar gyfer staff newydd (Safon 123), Atodiad 1.

Mae pob aelod o staff wedi cael gwybod am gyfleoedd i gael hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg a chânt eu hannog i fanteisio arnynt ym mhob cyfarfod tîm misol. Yn ogystal, caiff aelodau staff newydd eu hannog i fynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Rhoddwyd copi o'r Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith a dogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg y Comisiwn i bob aelod o staff er mwyn iddynt ddeall dyletswydd y Comisiwn i weithredu'n unol â Safonau'r Gymraeg a sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle (Safonau 126 i 129).

Rhoddwyd geiriad a chyfarwyddiadau priodol i'r holl staff yn ymwneud â llofnodion e-bost a manylion cyswllt (Safonau 130 a 131).

Recriwtiodd y Comisiwn i dair rôl yn 2024-25. Cynhaliwyd asesiadau sgiliau Cymraeg ar gyfer pob rôl (Safonau 132 i 133B, 135 i 136), Atodiad 2.

Gosodwyd arwyddion dwyieithog newydd yn safle swyddfa newydd y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (Safonau 137 i 139).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau gweithredu sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y cydymffurfir â nhw, mae'r rhain i'w gweld yn nogfen Polisi a Gweithdrefnau

Safonau'r Gymraeg CDFfC, sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan CDFfC ac sydd ar gael yn y swyddfa (Safonau rhif 161 a 163 a 165).

Mae Polisi Cwynion am y Gymraeg y Comisiwn ar gael ar wefan CDFfC ac yn y swyddfa (Safon rhif 162).

Mae'r ddogfen hon yn ffurfio adroddiad blynyddol y Comisiwn mewn perthynas â'r safonau gweithredu (Safon rhif 164).

Safonau Cadw Cofnodion

Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â chydymffurfedd y Comisiwn â'r Safonau na'r iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn (Safonau 141 i 143).

Crëwyd Cofnod Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac fe'i cynhelir er mwyn sicrhau bod cofnod o gydymffurfedd â'r safonau ar gael (Safonau 144 i 148).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau cadw cofnodion sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y cydymffurfir â nhw, mae'r rhain i'w gweld yn y ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg, sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan CDFfC ac sydd ar gael yn y swyddfa (Safon rhif 167).

Ni chafwyd unrhyw gais am wybodaeth yn ymwneud â'r safonau cadw cofnodion yn ystod y flwyddyn (Safon rhif 168).

Atodiad 1

Sgiliau Cymraeg Staff: Safon 123

Mae'r tabl hwn yn manylu ar yr aelodau staff a oedd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2024/25 (mis Mawrth 2025). Mae'r ffigurau wedi'u seilio ar y cofnodion a gedwir yn unol â Safon 123.

Sgiliau (Lefelau 0-5)	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
Gwrando	3	4	1	1	1	3	13
Darllen	3	5	1	0	1	3	13
Siarad	3	5	1	0	1	3	13
Ysgrifennu	3	6	0	0	1	3	13

Atodiad 2

Recriwtio i Swyddi: Safon 132

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y swyddi a hysbysebwyd yn 2024-25 o dan bob gofyniad sgiliau Cymraeg. Mae'r ffigurau'n adlewyrchu'r cofnodion a gedwir yn unol â Safon 132.

Y Gymraeg yn Hanfodol	1
Y Gymraeg yn Ddymunol	2
Y Gymraeg i'w Dysgu	0
Nid yw'r Gymraeg yn Angenrheidiol	0